

**Sir Fynwy sy'n
Gweithio i Bawb**
Cynllun Busnes Corfforaethol
Adnewyddiad Canol Tymor
2017 // 2022



**YN YMGORFFORI
AMCANION LLESIANT**



monmouthshire
sir fynwy

Fersiwn Rheoli

Teitl	Cynllun Busnes Corfforaethol: Sir Fynwy sy'n Gweithio i Bawb
Pwrpas	Gosod cyfeiriad clir i'r Cyngor ac amlinellu'r adnoddau sydd eu hangen i'w wireddu. Hysbysu a llunio carfan lawn o gynlluniau galluogi a chyflenwi o gwmpas Pobl; Digidol; Economi; Cwsmeriaid, Tir ac Asedau. Gosod y nodau wrth i Amcanion Llesiant y Cyngor fodloni gofynion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel Amcanion Gwella'r Cyngor sy'n cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
Perchennog	Uwch Dîm Rheoli
Cymeradwywyd gan	Cymeradwywyd gan y Cabinet, cytunwyd gan y Cyngor
Dyddiad	Cytunwyd y fersiwn blaenorol gan y Cyngor ar 21^{ain} Chwefror 2019 fel Amcanion Gwella ar gyfer 2019/20 Diweddariad canol tymor wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 19^{eg} Chwefror 2020 a'i gytuno gan y Cyngor ar 5^{ed} Mawrth 2020
Rhif y Fersiwn	3.0
Statws	Cymeradwywyd
Amllder Adolygu	Blynyddol
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Mawrth 2021
Ymgynghoriad	Ymgynghori anffurfiol â'r Uwch Dîm Arwain a'r Cabinet.

Cynnwys

Uchelgais

Cynnwys	3
Croeso i Sir Fynwy	4
Pwrpas ein Cynllun Busnes Corfforaethol.....	5
Ein Sylfaen: Pwrpas, Gwerthoedd a Bwriad	6
Deall beth sy'n bwysig.....	7
Cyflawni Beth sydd o Bwys – Ein Blaenoriaethau Polisi.....	12
Ein Pum Blaenoriaeth Polisi	13
Cynllun Ariannol Tymor Canolig	28
Sut byddwn yn Gwerthuso Cynnydd.....	29
Atodiadau	30
Rheoli Perfformiad a Fframwaith Polisi	31
Llywodraethu Da – Risgiau Strategol	33
Strwythur Trefniadol.....	35
Cyd-destun Polisi Cenedlaethol.....	36
Fformatau Amgen	39

Croeso i Sir Fynwy

Mae Sir Fynwy yn lle anhygoel i fyw, gweithio ac ymweld â hi. Mae'r cynllun hwn yn ystyried y bobl sy'n galw'r lle hwn yn gartref iddynt, nawr ac ymhenn deg neu ugain mlynedd. Bydd y penderfyniadau a'r camau a wnawn yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf yn pennu'r math o le y mae pobl yn byw ynddo, sut y byddant yn teithio o amgylch ein sir, y swyddi y byddant yn eu gwneud a'r cyfleusterau cymunedol, y dysgu a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

Bron i ddwy flynedd yn ôl, cyhoeddwyd ein Cynllun Corfforaethol cyntaf. Roeddem am roi gwybod i chi am yr hyn y gallech ei ddisgwyl gennym, fel eich awdurdod lleol, yn y tymor canolig. Yr ydym yn falch o'n hysgolion gwych, ac yr ydym wedi buddsoddi degau o filiynau o bunnoedd yn agor cyfleuster ysgol a hamdden newydd sbon ym Mynwy. Mae gennym gysylltiadau daearyddol a strategol da fel y porth i Gymru a Lloegr. Ers 2017, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y busnesau yn y Sir ac wedi gweithio'n galed fel aelod o Brifddinas-ranbarth Caerdydd i barhau i dyfu'r economi leol. Rydym yn parhau i greu'r amodau ar gyfer gweithredu cymdeithasol lleol ac i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl, gan ddatblygu Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol sy'n dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella canlyniadau i'r bobl a'r cymunedau.

Yr ydym yn dal i wynebu heriau mawr. Ni yw'r awdurdod a gyllidir isaf, y pen, yng Nghymru o hyd. Rydym yn parhau i weithio'n galed i ddefnyddio'r arian a dderbyniwn mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, mae bod yn Sir wledig yn bennaf yn golygu nad ydym yn elwa ar yr arbedion maint sydd gan ardaloedd trefol. Ni fydd canoli gwasanaethau mewn un man yng nghanol y Sir yn gweithio i drigolion Cil-y-coed na'r Fenni. Mae gennym hefyd boblogaeth sy'n heneiddio, sy'n dod â llawer o fanteision, ond hefyd heriau o ran swyddogaethau fel Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae angen i ni sicrhau bod teuluoedd yn gallu fforddio byw yma a bod gennym ddigon o bobl o oedran gweithio i greu cyfoeth lleol a darparu gwasanaethau allweddol.

Mae pwysau cyllidebol yn golygu na fyddwn yn gallu parhau i wneud popeth yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol. Byddwn yn parhau i wrando ar ein cymunedau, canfod beth sy'n bwysig iddynt a chanolbwyntio ar y meysydd hyn. Mae'r gwaith hwn i ddiweddarau'r Cynllun Corfforaethol yn y tymor canolig wedi ein galluogi i adolygu'r dystiolaeth a'r syniadau diweddaraf ar faterion sydd o bwys i'n cymunedau a sicrhau ein bod yn dal i ganolbwyntio ar faterion o bwys yn Sir Fynwy. Rydym yn awyddus i helpu cymunedau i ddatblygu eu gwytnwch eu hunain. Rydym yn credu mewn cyfiawnder cymdeithasol ac rydym wedi ymrwymo i gymdeithas decach a chyfartal. Rydym yn credu mewn helpu pobl i greu cymunedau y teimlant eu bod yn perthyn iddynt tra'n cefnogi eu llesiant. Mae hyn oll yn golygu bod gan bobl gyfrifoldebau yn ogystal â hawliau. Ni fydd gan ein swyddogion a'n cynghorwyr yr holl atebion ac mae angen i ni ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan yn y gwaith o lunio eu dyfodol eu hunain. Byddwn yn parhau i ehangu ein gorwelion, gan ddatblygu atebion arloesol i sicrhau y gall y Cyngor gadw i fyny â'r disgwyliadau. Ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau bod ein cyfraniad i'r Sir ehangach yn gweithio'n galed i greu'r amodau ar gyfer economi ffyniannus, cymunedau cysylltiedig a chynaliadwy ac amgylchedd sy'n gadarn yn ecolegol ac yn gyfoethog o ran diwylliant.

P'un a ydych yn breswlydd, yn berchennog busnes lleol neu'n aelod o staff, rwy'n eich annog i ddarllen y cynllun hwn a chymryd rhan i helpu i adeiladu'r dyfodol rydym am ei weld. Y dyfodol y mae Sir Fynwy yn ei haeddu.



Y Cynghorydd Sirol Peter Fox, OBE
Arweinydd y Cyngor

Pwrpas ein Cynllun Busnes Corfforaethol

Mae Cynllun Busnes Corfforaethol Cyngor Sir Fynwy'n amlinellu'r pethau y byddwn yn gweithio arnynt yn y tymor canolig. Mae'n rhoi cyfeiriad ac ymdeimlad o'r hyn a fydd yn bwysig, gan fynd â ni hyd at ddiwedd y tymor gwleidyddol yn 2022, ond mae llawer o'r pethau yr ydym yn eu gwneud yn hynod uchelgeisiol ac yn canolbwyntio ar ddyfodol tymor hwy ein sir. Nid yw'n ddigon cadw'n sir a'n cyngor i fynd am nawr – mae'n rhaid i ni sicrhau eu twf ar gyfer y dyfodol. Ein cynllun yw'r ffordd o sicrhau bod y cyngor, ei staff a'i aelodau etholedig yn benderfynol o gyflenwi'r hyn sydd o bwys, a'n bod yn gwneud hyn mor effeithiol ac mor effeithlon â phosib. Y cynllun hefyd yw ein ffordd o sicrhau bod gennych chi, fel rhanddeiliad lleol, dull i asesu ein gweithredoedd a'n dwyn i gyfrif.

Mae gennym awch ac uchelgais aruthrol dros y lle hwn ac mae rhai gwelliannau allweddol rydym wedi ymrwymo i'w cyflawni. Y broblem yw nad oes gan y cyngor yr adnoddau – yn nhermau ariannol na dynol – i gyflenwi'r holl bethau hyn ar yr un pryd. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau polisi a fydd yn cyflawni diben y Cyngor ac yn cyd-fynd â'r adnoddau ariannol sydd ar gael gennym, fel y nodwyd yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Mae adnewyddiad canol tymor yr ymrwymadau sydd yn y Cynllun Corfforaethol wedi sicrhau bod y dyheadau a'r gweithgarwch a osodwyd yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyflawnadwy gyda'r adnoddau sydd ar gael gennym ac yn adlewyrchu'r pethau sy'n bwysig i gymunedau. Y tu hwnt i ddyrannu adnoddau ariannol i flaenoriaethau, bydd y cynllun hwn hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer sut y byddwn yn ysgogi'r asedau a'r adnoddau ehangach sydd ar gael i ni. Mae'r cyllid a dderbyniwn i redeg gwasanaethau yn parhau i fod dan bwysau, ond rydym yn parhau i weld ymrwymiad Sirol cynyddol i weithredu cymdeithasol a gwirfoddoli lleol, a chyfraniad syniadau newydd, amser, ymdrechion ac egni.

O ganlyniad, gallwch ddisgwyl i'r cynllun hwn:

- Ymrwymo i flaenoriaethau sy'n cael effaith sylweddol ac sy'n drawsbynciol
- Cynnwys rhaglenni sy'n cyfrannu mewn ffordd glir, i un neu fwy o'n blaenoriaethau
- Cael eu tanategu gan fetrigau gwerthuso cadarn a gallu clir i olrhain cynnydd
- Canolbwyntio ar y pethau iawn – nid y pethau hawdd. Mae pob dewis yn rhoi cyfle i ystyried pa bethau amgen y gallem fod wedi'u gwneud gyda'r amser a'r arian
- Yn elwa o ffocws rheolaidd ein Cabinet a'n Tîm Arweinyddiaeth Strategol
- Manteisio ar gynlluniau gwasanaeth hirdymor a strategaethau galluogi eraill ar gyfer Pobl, Cwsmeriaid, Digidol, Asedau a'r Economi, ac alinio â nhw
- Darparu'r bensaerniaeth ar gyfer ein fframwaith rheoli perfformiad ehangach. Mae hwn yn ddull sy'n integreiddio strategaethau tymor hir a chyfeiriad polisi â chynlluniau busnes ar lefel adran, sy'n rhoi eglurder ar yr hyn sydd angen ei wneud, sut cânt eu gwneud ac erbyn pryd
- Meddu ar egwyddorion dylunio clir sy'n sicrhau dros amser bod ein hadnoddau ariannol, pobl a chymunedol yn cyd-fynd â'r pethau sy'n gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl lleol.

Ni fydd y Cynllun yn amlinellu popeth mae'r Cyngor yn ei wneud yn ein sir, bob dydd, i helpu i sicrhau bod y sir yn lle cynaliadwy a chadarn. Caiff ei gynnal gan fframwaith polisi trawsbynciol clir sy'n amlinellu'n fanylach ein gwaith mewn meysydd megis cyfiawnder cymdeithasol, a diogelu. Y cyfraniad a wna yw sicrhau ein bod yn dal i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a galluogi pobl ymhobman i weld sut mae'u gwaith yn ffurfio rhan o ddarlun llawnach ein uchelgais a'n hamcanion.

Ein Sylfaen: Pwrpas, Gwerthoedd a Bwriad

Mae gan Gyngor Sir Fynwy ymdeimlad cryf o gymeriad a phwrpas. Rydym yn eu llunio yn unol ag amcanion ac uchelgais ein partneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill megis y GIG, yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus, cymdeithasau tai a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'r rhain a llawer o sefydliadau eraill yn rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Fynwy. Rydym yn cyfuno dyfeisgarwch a mentergarwch yr holl bartneriaid i ddod o hyd i ddatrysiadau newydd i broblemau dyrys, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r ymdeimlad hwn o 'bŵer y gydweithfa' yn ganolog i'n pwrpas craidd, a adlewyrchir yn ein gwerthoedd ac a ymgorfforir yn ein diwylliant.

Pwrpas

Wrth galon popeth a wnawn:

Rydym am helpu i adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Gwerthoedd

Dim ond drwy'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma, y rhai ar ein cyflogres ni a'r rheini yng nghymunedau Sir Fynwy y gallwn gyflawni pethau mawr, gan gynnwys yr holl wirfoddolwyr a'r grwpiau sy'n cyfoethogi a bywiogi'r lle hwn. Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu pwy ydym ni, sut rydym yn gwneud pethau a sut rydym yn llunio'r dyfodol. Ceisiwn ein gorau i gymhwyso'r rhain ym mhopeth a wnawn.

Bod yn Agored Yr ydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd amser i gael yr ateb byddwn yn egluro pam; os na allwn ateb ar unwaith, byddwn yn ceisio eich cysylltu â'r bobl sy'n gallu helpu – mae meithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol. .

Tegwch Rydym yn darparu cyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrandao ac yn helpu i egluro pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn bob amser sicrhau bod pawb yn hapus, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac egluro pam y gwnaethom yr hyn a wnaethom.

Hyblygrwydd Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i gofleidio ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel yr 'atgyweiriwyr' neu ddatrysyr problemau, ond fe wnawn y gorau o'r syniadau, yr asedau a'r adnoddau sydd ar gael i wneud yn sicr y gwnawn y pethau sy'n effeithio'n fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n sir.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'n fanylach beth fyddwn ni'n ei wneud i helpu i wireddu'n nod o adeiladu cymunedau cynaliadwy a chadarn.

Deall beth sy'n bwysig


Os yw popeth yn flaenoriaeth yna nid oes dim byd yn flaenoriaeth. Gwnaethom archwilio tystiolaeth a nodi'r meysydd y bwriadwn ganolbwyntio arnynt. Rydym wedi alinio uchelgais ag asesiad clir o'r buddsoddiad ariannol sydd ei angen i gyflawni hyn ac mae popeth yn y cynllun hwn yn cyd-fynd â'n pwrpas.

Ein cymhelliad yw helpu i wella bywydau a chreu cymunedau galluog. Y cwestiwn sydd wrth wraidd y cynllun hwn, felly, yw nid 'beth allwn ni ei fforddio?' ond 'beth sy'n bwysig?' Ein cred graidd yw os gwnawn y pethau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf – bydd manteision busnes a sefydliadol yn deillio o'r ffaith fod arian yn dilyn eglurder. Ar ddechrau'r tymor gwleidyddol yn 2017, dechreuwyd drwy gasglu ystod eang o wybodaeth i ddeall y materion sydd bwysicaf i bobl. Rydym hefyd wedi bod yn edrych ar dueddiadau'r dyfodol i sicrhau ein bod yn ystyried y pethau a fydd yn effeithio ar y ffordd rydym yn gweithio yn y tymor hwy ac yn gallu manteisio ar fanteision technoleg newydd ac ystyried pethau fel newid yn yr hinsawdd.

Llywio ein Cynllun

Mae Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi'i gynhyrchu yn dilyn ymgysylltu helaeth â chyfraniadau gan fwy na 1,400 o bobl, ac archwiliad ystod eang o ddata a thystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio a thueddiadau yn y dyfodol, fel natur gyfnewidiol cyflogaeth ac effaith ffactorau amgylcheddol megis llygredd. Tynnodd sylw at faterion gan gynnwys:

- Mae cyflogau isel a phrisiau eiddo uchel yn ei gwneud yn anodd i deuluoedd fyw a gweithio yma
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a lefelau cymharol isel o seilwaith band eang yn ei gwneud yn anos i bobl gael gafael ar waith, swyddi a gwasanaethau ac mae siwrneiau ceir yn achosi llygredd aer sy'n cael effeithiau gwirioneddol ar iechyd
- Lleihau lefelau gweithgarwch corfforol a'r cynnydd dilynol mewn gordewdra a chlefyd y siwgr math 2
- Pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal gan boblogaeth sy'n heneiddio



Er bod y gwaith hwn wedi'i wneud ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'n dod â materion i'r amlwg sy'n eithriadol o bwysig i'n cyngor a'r ardal leol. Fel partner allweddol yn y BGC, rydym yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o'u datblygu ac yn cydnabod mai ni yw'r prif alluogwyr i alluogi'r symud a'r newidiadau sydd eu hangen i ddatblygu dyfodol cynaliadwy a chadarn. Mae'r blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer Cyngor Sir Fynwy hefyd yn adlewyrchu ein cyfraniad at amcanion Llesiant a osodwyd ar gyfer y Sir gan gynllun Llesiant y BGC. Dangosir yr amcanion ar gyfer y sir a'r nodau ar gyfer y cyngor yn y diagram.

Casglodd cynghorwyr wybodaeth am y materion a godwyd amlaf ar garreg y drws yn ystod etholiadau lleol 2017 a chymorthfeydd ward. Mae'r rhain yn cynnwys goryrru; ansawdd ein seilwaith ffisegol a digidol; traffig; sbwriel ac addysg.

Rydym hefyd wedi edrych ar y materion y mae pobl yn eu hadrodd drwy ganolfannau cymunedol, y ganolfan gyswllt a'r ap Fy Sir Fynwy, sydd bellach â bron i 60,000 o gyfrifon gweithredol. Ymhlith y rhesymau mwyaf cyffredin dros gysylltu â'r Cyngor yw gwastraff - pethau fel cofrestru ar gyfer casglu gwastraff gardd, casglu bagiau newydd a chofnodi casgliadau biniau, a threth y cyngor a refeniw - cymorth gyda chwblhau ffurflenni ac ymholiadau budd-daliadau. Mae'r materion eraill sy'n arwain at gyswllt uniongyrchol yn tueddu i fod yn ymwneud â darparu ein gwasanaeth bws 'Grass Routes' ac adroddiadau ar dipio anghyfreithlon.

Fel rhan o'r gwaith o ddiweddarau'r ymrwymadau yn y Cynllun Corfforaethol canol tymor, rydym wedi edrych ar y dystiolaeth a'r syniadau diweddaraf ar faterion sydd o bwys i'n cymunedau, fel y pryder cynyddol am effaith allyriadau carbon ar ein hinsawdd, er mwyn sicrhau bod y dyheadau ac ymrwymadau yn parhau i fod yn berthnasol i'r materion arwyddocaol o ran llesiant yn Sir Fynwy.

Mae themâu a materion pwysig eraill sy'n arwain ein gwaith yn cynnwys y blaenoriaethau a nodwyd gan y Weinyddiaeth yn ei Maniffesto Gwleidyddol cyn yr etholiad ym mis Mai 2017. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymadau i gefnogi:

- **Addysg a Sgiliau** – buddsoddi mewn ysgolion uwchradd newydd, codi safonau a rhoi pwyslais ar wyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg sef y pynciau 'STEM'.
- **Gofal Cymdeithasol ac Iechyd** - galluogi pobl sy'n agored i niwed ac sy'n oedrannus i gael cymorth i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau am gyfnod hirach. Gweithio mewn ffordd integredig gydag asiantaethau iechyd ac eraill er mwyn creu gwasanaethau mwy di-dor, brwydro yn erbyn unigrwydd a chadw pobl yn iach
- **Cyfiawnder Cymdeithasol** - cymdeithas deg a chyfartal, yn parchu ac yn cynnal amrywiaeth o fewn ein cymunedau, gan fynd i'r afael â thlodi plant a diweithdra
- **Mentergarwch a Chreu Swyddi** - manteisio ar Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd a diwedd tollau Pont Hafren er mwyn datgloi cyfleoedd ac ysgogi twf economaidd fel y bydd cynhyrchiant yn ysgogi mwy o ffyniant
- **Cymuned Wledig** - brwydro amddifadedd gwledig a mynediad at wasanaethau, hyrwyddo technolegau 'clyfar' newydd ym maes amaethyddiaeth, hamdden a thwristiaeth a gwella mynediad i seilwaith digidol a ffisegol
- **Gwasanaethau Hygyrch Lleol** - cynnal cynnig gwasanaeth lleol a gwella ein darpariaeth hamdden a hamdden gan gynnwys pwll newydd a chyfleusterau yn Nhrefynwy
- **Darparu Tai o Ansawdd** - gan gynnwys tai fforddiadwy, i ddiwallu anghenion ein cymunedau ac i fynd i'r afael ag anghenion ein demograffeg sy'n newid.

Mae'r gwaith adnewyddu canol tymor wedi cadarnhau mai'r nodau rydym wedi'u gosod yw'r rhai cywir o hyd, yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar y blaenoriaethau a'r materion llesiant yn Sir Fynwy, ac mae'r gweithgarwch yr ydym wedi ymrwymo iddo yn parhau'n berthnasol. Rydym wedi nodi lle mae gweithgarwch wedi'i gwblhau ac wedi ychwanegu rhai camau newydd. Mae hyn yn unol â'n gofynion o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol i barhau i adolygu ein nodau a gwneud unrhyw ddiwygiadau lle rydym yn nodi bod angen addasu gweithgarwch er mwyn sicrhau ein bod yn cyfrannu i'r eithaf at nodau llesiant Cymru gyfan.

Rheoli Ein Perfformiad

Mae Rheoli Perfformiad yn golygu sicrhau dealltwriaeth a rennir o'r hyn sydd angen ei gyflawni a sicrhau ei fod yn digwydd. Bydd yr holl gynlluniau eraill yn cael eu hadeiladu o'r un hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y strategaethau galluogi lefel uchel sy'n ffurfio fframwaith polisi'r cyngor a'r cynlluniau strategol sy'n rhoi'r manylion sy'n dod â'r strategaeth hon yn fyw.

Mae gan bob un o'n timau gynlluniau busnes gwasanaeth sy'n disgrifio'r camau gweithredu penodol y bydd cydweithwyr yn gweithio arnynt i gyflawni'r amcanion. Mae pob cydweithiwr yn cael arfarniadau blynyddol sy'n sicrhau bod eu cyfraniadau eu hunain yn cyd-fynd â phwrpas, gwerthoedd ac amcanion y Cyngor yn ogystal â darparu'r llwybr ar gyfer eu datblygiad personol eu hunain.

Yn sail i hyn i gyd mae cyfres o fesurau sy'n ein galluogi i ddeall pa mor dda y mae prosesau yn gweithio ac yn bwysicach na hynny i olrhain cynnydd yn erbyn y pethau sy'n bwysig. Gallwch weld mwy o fanylion am ein fframwaith rheoli perfformiad yn Atodiad Dau.

Cynnydd a wnaed hyd yma

Rydym wedi parhau i adolygu ein cynnydd a'n perfformiad yn erbyn ein nodau yn y cynllun ac mae ein hadroddiadau perfformiad blynyddol ar gael yn www.monmouthshire.gov.uk/cy/cynllun-gwella/. Nodir rhai o'n meysydd sylweddol o gynnydd isod. Mae ein cynllun yn rhaglen uchelgeisiol; mae rhai ymrwymadau yn canolbwyntio ar ddyfodol tymor hwy y Sir ac yn anelu at fynd i'r afael â heriau cymhleth, yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n bosibl na fydd rhywfaint o effaith ein gweithgarwch yn amlwg eto dros amserlenni byr, a bydd peth o'r gweithgarwch yn y camau cynnar.

CYNLLUN CORFFORAETHOL

BETH A DDIGWYDDODD HYD YMA?



NOD: A. Y DECHRAU GORAU POSIBL

Agor ysgol £40m newydd yn Nhrefynwy gan roi amgylchedd dysgu modern i ddisgyblion.

Mae 1.6% o'r rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

Parhau i ddatblygu ffyrdd i gynorthwyo'r nifer cynyddol o blant a theuluoedd sydd angen ein cefnogaeth, sy'n rhoi pwysau ar ein gwasanaethau. Mae 201 o blant yn derbyn gofal ar hyn o bryd.

Denu mwy o ofalwyr maeth i gynnig lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Mae gennym 71 o ofalwyr maeth, er ein bod angen mwy ac mae ymgyrchoedd ar hynny'n parhau.



NOD B: SIR LEWYRCHUS GYDA CHYSYLLTIADAU DA

Gweithio ar brosiectau o bwysigrwydd rhanbarthol fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yn ei flwyddyn gyntaf, mae 46 o dechnegwyr a pheirianwyr medrus iawn wedi dechrau gwaith yn y Ffowndri Lied-ddargludyddion Compound newydd

Cefnogi a chynghori 145 o fusnesau cyn-cychwyn a busnesau presennol drwy Dîm Busnes a Menter Sir Fynwy a thrwy atgyfeiriadau i bartneriaid.

Denu £1.2 milliwn o gyllid gan Swyddfa'r Cabinet i ddatblygu datrysiadau i unigrwydd a diffyg trafnidiaeth wledig yn ein cymunedau.

Adolygu ein Cynllun Datblygu Lleol, gan nad oeddem yn cyflawni deilliannau allweddol yng nghyswilt darpariaeth tai. Adeiladwyd 215 cartref fforddiadwy yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

CYNLLUN CORFFORAETHOL

BETH A DDIGWYDDODD HYD YMA?



NOD C. CYNYDDU I'R EITHAF BOTENSIAL YR AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG

Cyflwyno casgliadau gwastraff ac ailgylchu newydd i wella'r gwasanaeth a lleihau cost. Mae ein cyfradd ailgylchu flynyddol yn 63%, sy'n is na thargedau Llywodraeth Cymru.

Datgan argyfwng hinsawdd a pharatoi strategaeth ar sut y byddwn yn gostwng ein hallyriadau ein hunain tra'n gweithio gydag eraill i ostwng allyriadau ar draws y sir. Daw 19.3% o'r trydan a ddefnyddiwn ar hyn o bryd o'n ffynonellau adnewyddadwy yn cynnwys ein fferm solar.

Gweithio gyda Riversimple i beilotia 20 car a bwerir gan hydrogen yn Sir Fynwy.

Sefydlu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd i wella'r amgylchedd ar draws 88,000 hectar Sir Fynwy.



NOD D: DYSGU GYDOL OES

Symud ymlaen gyda gwaith i adeiladu sector gofal cartref mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Cefnogodd ein gwasanaethau cymdeithasol Oedolion 2,691 o bobl y llynedd.

Datblygu Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella deilliannau i bobl a chymunedau y sir. Mae 10% o bobl Sir Fynwy mewn amddifadedd incwm er y gall hyn amrywio mewn gwahanol rannau o'r sir.

Cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael o fewn y sir; mae 1360 gwirfoddolwr yn cefnogi'r cyngor yn uniongyrchol ar hyn o bryd.

Agor Canolfan Hamdden newydd £7milliwn yn Nhrefynwy a lansio Bywyd Mynwy: gwarchod a gwella ein Gwasanaethau Twristiaeth, Diwylliant, Hamdden ac Ieuenctid.



NOD E: CYNGOR GYDA FFOCWS AR Y DYFODOL

Lansio 'Monty', Sgyrsfot y Cyngor, sy'n helpu pobl i gael gwybodaeth ar ymholiadau cyffredin, gan ddatrys 460 ymholiad y mis ar gyfartaledd.

Datblygu strategaeth fasnachol i hybu diwylliant a dull gweithredu masnachol. Prynwyd 2 fuddsoddiad masnachol i gynhyrchu incwm i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor.

Cynllunio sut y gwariwn ein cyllideb £154 milliwn ar wasanaethau a chyflenwi er heriau a phwysau ariannol parhaus.

Datblygu strategaeth i gefnogi prentisiaethau, swyddi i raddedigion a chyfleoedd intern ar draws yr awdurdod lleol. Mae 21 swydd i brentisiaid a graddedigion yn y Cyngor.

Cyflawni Beth sydd o Bwys – Ein Blaenoriaethau Polisi

Mae'r Cynllun hyd yn hyn wedi sefydlu'r cyd-destun, y dystiolaeth a'r mewnbynnau. Mae'r sylw nawr yn troi at yr allbynnau a'r canlyniadau i'w gwireddu os ydym i drosi'n dealltwriaeth o'r hyn sydd o bwys i mewn i gyflawni'r hyn sydd o bwys drwy raglen ystyrllon. Mae'r adran hon yn amlinellu'n pum Nod Sefydliadol sy'n cael eu cefnogi gan y 22 o ymrwymadau i gamau y byddwn yn eu cymryd a'r ffyrdd y byddant yn cael eu mesur hyd at 2022.

Mae'r pum Nod Sefydliadol hefyd yn gwasanaethu fel Amcanion Llesiant y Cyngor – ond yn mynd ymhellach gan adlewyrchu'r angen am ganolbwyntio'n ddyfnach ar fusnes y cyngor a'r sefydliad. Mae nodi ein dyheadau yn y ffordd hon a'r camau gweithredu sydd eu hangen i'w cyflawni yn ein galluogi i nodi'r dyfodol yr ydym am ei weld. Dyma ein hymrwymadau i weithredu. Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn flynyddol er mwyn dangos y gwahaniaeth y mae'r cynllun yn ei wneud mewn cymunedau lleol. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn gwneud data a gwybodaeth yn agored ac ar gael, gan roi cyfrif mwy deinamig a pharhaus o'n perfformiad.

Ein Pum Blaenoriaeth Polisi

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu mewn termau clir ein hymrwymiad i weithredu rhwng nawr a 2022 ac mae'n cynnwys Amcanion Llesiant y cyngor fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

A. Y cychwyn gorau posib mewn bywyd

Profir gan y canlynol:

Dengys ymchwil bod gwella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn dibynnu ar agwedd 'cwrs bywyd'; mae pob cyfnod mewn bywyd yn adeiladu i'r nesaf. Byddwn yn gweithio gyda phlant, eu teuluoedd a chymunedau gan gydnabod bod cryfderau gan bawb ynghyd ag anghenion. Byddwn yn gweithio ar draws galwedigaethau ac asiantaethau ac yn cael ein llywio gan ddata a thystiolaeth o arfer dda sy'n dod i'r amlwg.

Fel sefydliad rydym yn cydnabod pwysigrwydd llesiant a diogelwch a sicrwydd pobl fel rhan o hynny. Byddwn yn hyrwyddo diogelu ac yn sicrhau ei fod yn fater i bawb ac yn annog ffyrdd o fyw egniol i blant a phobl ifanc drwy amrywiaeth eang o weithgareddau.

Byddwn yn ymrwymo i gychwyn y gwaith angenrheidiol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dewis mynychu'r ysgol yn y sir.

Byddwn yn buddsoddi yn addysg a datblygiad ein holl blant, gan sicrhau bod ganddynt yr amgylchedd, y sgiliau a'r gefnogaeth i ffynnu ac i fod yn barod am waith y dyfodol. Rydym am i'n plant a'n pobl ifanc fod yn barod ar gyfer diwydiant, gallu cyfrannu'n lleol ac yn fyd-eang a bodloni gofynion amgylchedd byd sy'n newid yn gyflym.

- Canran y plant a phobl ifanc ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn Ysgolion Cynradd Sir Fynwy sy'n symud i Ysgol Uwchradd yn y Sir
- Canran y disgyblion sydd â datganiad o anghenion dysgu addysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd o fewn y Sir
- Canran yr Ymadawyr ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
- Canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael profiad o symud ysgol nad yw'n drosiannol
- Canran y teuluoedd a gefnogir gan wasanaethau cymorth cynnar sy'n dweud eu bod yn cael eu helpu gyda'r hyn sy'n bwysig iddynt
- Canran y plant a leolwyd gyda gofalcwyr maeth cyffredinol/sy'n berthnasau
- Canran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ar dri achlysur neu fwy yr wythnos
- Nifer y bobl ifanc sydd wedi'u hyfforddi yng ngwobrau Playmaker

B. Sir ffyniannus wedi'i chysylltu'n dda

Profir gan y canlynol:

Sir Fynwy yw'r economi fwyaf cystadleuol yng Nghymru ar ôl prifddinas Caerdydd, yn y sefyllfa orau ar gyfer twf y pen o'r boblogaeth¹ ac sydd â'r gyfradd uchaf o fusnesau'n cychwyn. Er bod cynhyrchiant yn gymharol uchel - mae angen gwneud mwy i gynyddu Gwerth Ychwanegol Crynswth mewn diwydiannau sy'n bodoli eisoes ac mewn diwydiannau newydd. Fel y pwynt agosaf ar gyfer adleoli busnes, cyfnod wedi i Dollau Pont Hafren ddod i ben - mae hyn yn golygu cymryd y cyfle i hybu cynhwysedd Ymchwil a Datblygiad. Byddwn yn datblygu strategaeth glir sy'n mynegi ein cryfderau a'n nodau unigryw ar gyfer gwella cystadleurwydd, arloesedd a chynhyrchiant.

Rydym eisiau i Sir Fynwy fod yn lle i fod ynddo - nid yn unig yn lle dod ohono - ac felly byddwn yn adolygu'n Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau ei fod yn cwrdd â'n hanghenion. Bydd cyflenwi tai o ansawdd da sy'n gynaliadwy a fforddiadwy, yn help i ni alluogi i gadw'n pobl ifanc, gan helpu i fynd i'r afael â cholli'n pobl alluocaf, a rheoli'r heriau cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n gyflym heneiddio.

Byddwn yn mynd i'r afael â'r rhwystrau i gynhyrchiant, ac yn canolbwyntio ar seilwaith a chysylltedd cynaliadwy. Yn allanol, bydd datblygu sylfeini o'r fath yn galluogi busnesau a mentrau cymunedol i gyflenwi gwaith, twf a ffyniant. Ar ôl Brexit bydd hyn yn galluogi busnesau i edrych y tu hwnt i'n glannau ar gyfer cwsmeriaid. Yn fewnol, fe fyddwn yn datgloi gwerth ein gwariant caffael ein hunain; datblygu menter a yrrir gan ddata a chyfeiriadau meddwl masnachol ac agweddau mwy arloesol at greu marchnad leol.

- Gwerth Ychwanegol Crynswth (£ y pen)
- Gwahaniaeth yn y cyfartaledd cyflog rhwng dynion a menywod
- Cyfartaledd enillion wythnosol pobl sy'n gweithio yn Sir Fynwy
- Nifer o fentrau busnes gweithredol yn y Sir
- Nifer y busnesau a gynorthwywyd gan Dîm Busnes a Menter Sir Fynwy ac atgyfeiriadau i bartneriaid
- Cyfanswm yr incwm a gynhyrchir o dwristiaeth
- Nifer yr unedau tai marchnad a thai fforddiadwy a adeiladwyd
- Nifer y safleoedd sydd â mynediad i fand eang cyflym drwy'r cynllun Cyflymu Cymru 2
- Nifer yr eiddo gwyn sy'n cael mynediad i fand eang cyflym

¹ Mynegai Cystadleurwydd y DU 2019

C. Mwyafu potensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig

Mae gan Sir Fynwy amgylchedd naturiol odidog, gwerth treftadaeth unigryw a hunaniaeth ddiwylliannol gyfoethog. Credwn nad oes angen i dwf, datblygiad ac ehangiad angenrheidiol ein lle fod yn fygythiad i'n harlwy unigryw – yn wir, dylai ei ategu a'i gyfethogi. Fel sir amaethyddol a sirol sy'n cynhyrchu bwyd, rydym yn cydnabod yr ysgogiad moesol ac economaidd sy'n ymwneud â lleihau gwastraff bwyd a'r effaith ar nwyon tŷ gwyr. Cefnogwn egwyddorion yr 'economi gylchynol' ac ailgylchu ac adfer nwyddau ac rydym eisiau gweithio gyda busnesau a sefydliadau sy'n tanysgrifio i'r rhain hefyd.

Rydym wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac rydym wedi ymrwmo i gyflawni'r strategaeth a'r cynllun gweithredu i leihau allyriadau carbon y cyngor. Byddwn yn cynnal y systemau corfforaethol, polisiâu a chynlluniau rheoli asedau mewnol sy'n rhoi pwyslais ar leihau carbon, cydnerthedd ynni a diwylliant cyngor gwyrdd. Yn gysylltiedig â hyn, fe fyddwn yn diogelu buddiannau amgylcheddol ehangach ein cymunedau gwledig drwy ddatblygu agweddau amlasiantaethol at ddiogelwch ffordd.

Byddwn yn parhau i gydnabod gwerth ein diwylliant a'n treftadaeth i gyfoethogi elfen ddeniadol byw yn Sir Fynwy. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i wella ein cyfleusterau hamdden a diwylliannol o safon uchel er mwyn rhoi cyfleoedd i bobl ddysgu, datblygu a mwynhau eu hunain a helpu i ddenu'r dalent sydd mor allweddol i yrru economi gref.

Profir gan y canlynol:

- Canran y gwastraff a aildddefnyddir, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd
- Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon
- Canran y strydoedd sy'n lân
- Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid y Cyngor
- Capasiti ynni adnewyddadwy yn y Sir a yrrir gan y Cyngor
- Lefelau llygredd Nitrogen Deuocsid (NO₂) yn yr aer.
- Nifer y coed a blannwyd
- Nifer y Llwybrau Teithio Llesol newydd
- Nifer o gymunedau gwledig lle y cefnogir mentrau diogelwch cyflymder
- Canran y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael
- Cyfanswm arian y Cynllun Datblygu Gwledig a ymrwymwyd i brosiectau yn Sir Fynwy

Ch. Llesiant Gydol Oes

Profir gan y canlynol:

Mae datblygu llesiant a mabwysiadu dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn golygu newid arferion a bywydau. Byddwn yn parhau i ymrwymo i bersonoleiddio gofal a chydweithrediad gwirioneddol gyda phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth a gofalwyr.

Mae gwneud cysylltiadau dwfn y norm yn heriol – ond dyma'r peth iawn i'w wneud ac mae datblygu partneriaethau gwirioneddol effeithiol a chefnogi cadernid teulu unigol a chymunedol yn allweddol i hyn. Mae creu systemau cynnal cymdeithasol da yn dibynnu ar fwy nag agweddau economaidd a chreu cyfoeth ein gwaith. Byddwn yn gweithio i greu ffyniant i bawb ac mae hyn yn golygu ystyried llesiant economaidd a chymdeithasol.

Rydym wedi ymrwymo i gyfiawnder cymdeithasol; i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i bobl a chymunedau'r Sir. Byddwn yn meithrin cyfalaf cymdeithasol ac yn hyrwyddo mynediad at gyfleoedd, a thrwy wneud hynny, yn gweithio tuag at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol a gofal cymdeithasol gwell. Bydd ein dull gweithredu yn seiliedig ar gryfderau er mwyn annog annibyniaeth, hunanofal, cymorth, dysgu ac ymgysylltu.

- Canran y bobl sy'n byw'n annibynnol gartref 6 mis ar ôl ail-alluogi
- Canran y defnyddwyr gwasanaethau sy'n oedolion sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant
- Canran y defnyddwyr gwasanaethau sy'n oedolion sy'n teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol
- Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/defnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt
- Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cefnogi Cyngor Sir Fynwy yn uniongyrchol
- Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith neu fwy'r wythnos
- Canran y bobl sy'n cymryd rhan yn y cynllun atgyfeirio ymarfer corff sydd o hyd yn weithredol ar ôl 16 wythnos

D. Cyngor sy'n canolbwyntio ar y dyfodol

Profir gan y canlynol:

Mae ein hamgylchedd gweithredu yn un newidiol a heriol. Mae newidiadau demograffig, cynnydd yn y galw, ein hymadawiad o'r UE ac ansicrwydd cyllidol, pob un yn gofyn am ddealltwriaeth nad 'busnes fel arfer' ydyw mwyach. Byddwn yn parhau i addasu'n gyflym, datblygu gallu rhagweld a galluogi'r newidiadau i wasanaethau a thrawsffurfiadau sirol sy'n bodloni dyheadau ein cymunedau orau. Bydd yr agwedd allblyg hon yn golygu gostwng ein dibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus traddodiadol a chael cydberthnasau lleol sy'n wirioneddol gydweithrediadol. Bydd digidol yn nodwedd arbennig o hyn, gan ganiatáu modelau gwasanaeth 'sy'n gweddu i'r dyfodol' a galluogi rhannu agweddau ac adnoddau i fynd i'r afael â phroblemau trawsbynciol.

Ein nod yw parhau i adeiladu Cyngor ymgysylltiol, ymatebol ac addasol, a all ddarparu arweinyddiaeth effeithiol, ar y cyd â phartneriaid lleol eraill. Byddwn yn datblygu ac yn cynnal amgylchedd gwaith deinamig, iach a buddiol sy'n denu ac yn cadw'r dalent orau ac yn eu galluogi i berfformio ar eu gorau.

Bydd llywodraethu da wrth wraidd yr hyn a wnawn a byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cyrraedd y bobl gywir er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Byddwn yn integreiddio ffocws gwasanaeth i mewn i'n holl ymwneud â chwsmeriaid ac yn sicrhau y cânt eu trwytho'n dda a'u bod yn cyfranogi mewn gwneud penderfyniadau. Deallwn fod y gweision cyhoeddus gorau yn gweld eu hunain yn gweithio, nid ar gyfer y cyngor, ond ar gyfer y sir.

- Gorwariant/tanwariant cyllideb refeniw'r Cyngor
- Canran y gostyngiadau cyllideb targedig a gyflawnwyd
- Cynhyrchu incwm o fuddsoddiadau masnachol
- Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
- Nifer y setiau data agored a gyhoeddwyd
- Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol fesul 1,000 o weithwyr
- Nifer y diwrnodau gweithio a gollwyd oherwydd salwch fesul cyflogeion cywerth ag amser llawn
- Canran y trosiant staff

Sir Fynwy sy'n Gweithio i Bawb

A. Y cychwyn gorau posib mewn bywyd

	Sut rydym yn ei wneud	Pwy sy'n atebol?
1) MAE'R CYNGOR YN BUDDSODDI MEWN YSGOLION YN Y DYFODOL	- Cwblhau'r waith cynhwysfawr o ailddatblygu ysgol uwchradd newydd gyda chyfleusterau hamdden cymunedol yn Nhrefynwy (<i>Wedi'i Gwblhau</i>) - Dechrau ailddatblygu Ysgol y Fenni - Datblygu cynigion 'Band C' ar gyfer ail-ddarparu addysg uwchradd yn ardal Cas-gwent	Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a MonLife
2) MAE GAN Y CYNGOR GYNLLUN AR GYFER CODI SAFONAU MEWN YSGOLION	- Parhau i godi safonau mewn addysg a sicrhau ffocws parhaus ar ddysgwyr agored i niwed - Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru gan gynnwys canolbwyntio ar y sgiliau ehangach sydd eu hangen ar gyflogwyr. - Cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion, eu cymunedau a busnesau lleol er mwyn gwella llesiant plant a phobl ifanc (<i>Newydd</i>)	Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a MonLife
3) MAE'R CYNGOR YN YMGYMRYD AG ADOLYGIAD ADDYSG STRATEGOL	- Gweithredu canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad annibynnol o Anghenion Dysgu Ychwanegol - Adolygiad o'r Polisi Dalgylch a'r Ysgol Agosaf - Adolygiad o Gludiant Cartref i'r Ysgol - Adolygu a datblygu strwythurau arweinyddiaeth ar draws ysgolion	Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a MonLife Aelod Cabinet dros Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth
4) MAE'R CYNGOR YN GWEITHREDU MODEL O YMYRRAETH AC ATAL CYNNAR AR GYFER PLANT A THEULUEDD	- Integreiddio gwasanaethau ataliol plant a theuluoedd ym mhob ardal i un swyddogaeth sy'n canolbwyntio ar atal - Darparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion ieuchyd meddwl a llesiant emosiynol - Hyrwyddo ffyrdd gweithgar o fyw i blant a phobl ifanc drwy amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon, ymarfer corff a'r amgylchedd naturiol	Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd

	Cyflwyno'r pecyn cymorth 'Lleisiau Plant mewn Chwarae' ledled y Sir er mwyn cefnogi'r gwaith o greu cymunedau chwarae-gyfeillgar (<i>Newydd</i>)	
5) 5)MAE'R CYNGOR YN SICRHAU LLETY PARHAOL A CHEFNOGAETH AR GYFER PLANT MEWN GOFAL	Cynyddu nifer y gofalmwyr maeth yn Sir Fynwy	Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd

B. Sir ffyniannus wedi'i chysylltu'n dda

Beth rydym yn ei wneud	Sut rydym yn ei wneud	Pwy sy'n atebol?
6) MAE'R CYNGOR YN DATBLYGU AC YN CYFLWYNO STRATEGAETH ECONOMI A MENTERGARWCH NEWYDD	- Gweithio gyda busnesau i greu a chyflwyno strategaeth newydd sy'n canolbwyntio ar gynyddu cynhyrchiant ac arloesedd o ran cystadleurwydd - Datblygu cymhellion a chymorth i annog twf busnesau brodorol a mewnfuddsoddi - Datblygu mwy o gyfleoedd gwaith, fel prentisiaethau a'r cynllun Menter Ieuenctid, gan gynyddu'r nifer sy'n cadw demograffeg economaidd weithgar iau - Sicrhau bod polisiau cynllunio a dyraniadau tir ar gyfer defnydd cyflogaeth yn galluogi sectorau twf priodol. - Codi proffil Sir Fynwy, cefnogi a thyfu'r economi sylfaenol gan gynnwys datblygu cynigion ar gyfer cadwyni cyflenwi byrrach er budd defnyddwyr a thyfwyr. <i>(Newydd)</i> - Datblygu cymorth i fusnesau gwledig gan gynnwys gwelliannau i fand eang gwledig: gweithredu fel ardal brawf ar gyfer cymhwyso gwledig o ran 5G a hwyluso technoleg amaethyddol <i>(Newydd)</i>	Aelod Cabinet dros Fenter a Chynllunio Defnydd Tir Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Datblygu Cymunedol
7) MAE'R CYNGOR YN MANTEISIO I'R EITHAF AR BOTENSIAL ECONOMAIDD DRWY GYFLAWNI BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD	- Arwain 'thema arloesedd' a chwarae rôl llywodraethu allweddol ym Mhrifddinas Ranbarth Caerdydd <i>(Wedi'i Gwblhau)</i> - Gweithio fel rhan o Brifddinas Ranbarth Caerdydd i ddenu swyddi sy'n uchel o ran sgiliau a chyflogau uchel er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i godi incwm eu haelwyd <i>(Newydd)</i> - Datblygu a chyflawni prosiectau o bwys rhanbarthol gan gynnwys manteisio ar y Ffowndri Lled-ddargludyddion Cyfansawdd newydd	Arweinydd y Cyngor Aelod Cabinet dros Fenter a Chynllunio Defnydd Tir
8) MAE'R CYNGOR YN DARPARU GWELL	Datblygu a chyflwyno datrysiadau i wella band eang gwledig	Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Datblygu Cymunedol

SEILWAITH, CYSYLLTEDD A CHYFLEOEDD	- Datblygu ystod o opsiynau i wella trafnidiaeth wledig a gwell trafnidiaeth gyhoeddus yn gysylltiedig â chyfleoedd ledled Prifddinas Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys gwelliannau yng Nghyffordd Twnnel Hafren - Gwneud defnydd o dechnoleg newydd i wella sut rydym yn cynnal gwasanaethau priffyrdd - Cwblhau ail gam astudiaeth Drafnidiaeth Cas-gwent ar y cyd â'r contractwyr a benodwyd ac awdurdodau lleol cyfagos; a chymryd camau ar sail y canfyddiadau (<i>Newydd</i>) - Nodi ffyrdd o leihau'r gwahaniaeth mewn tâl rhwng dynion a menywod yn y Sir	Aelod Cabinet dros Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth
9) MAE'R CYNGOR YN DARPARU MWY O GYFLEOEDD LLEOL AR GYFER BYW, GWEITHIO A HAMDDEN	- Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol presennol i sicrhau cyflenwad priodol o dir ar gyfer cartrefi a busnesau - Cymryd rhan mewn cyfleoedd ar gyfer cynlluniau datblygu defnydd tir strategol rhanbarthol, a'u llunio - Cynyddu nifer, ansawdd, amrywiaeth a fforddiadwyedd tai - Darparu cymorth hyblyg ar gyfer datblygu twristiaeth yn y Sir - Ymgysylltu â chymunedau i greu cynlluniau ar gyfer ailddatblygu canol tref Brynbuga a Chil-y-coed a dechrau trafodaethau ar gynlluniau ar gyfer Trefynwy a Chas-gwent (<i>Newydd</i>)	Aelod Cabinet dros Fenter a Chynllunio Defnydd Tir
10) MAE'R CYNGOR YN DATGLOI GWERTH ECONOMAIDD EI BŴER GWARIO	- Adolygu'n gwariant caffael, gwella dadansoddiad o wariant ac adeiladu cadwyni cyflenwi lleol lle bo'n bosib - Lleihau effaith ein gweithgarwch yn y tymor hir drwy ddefnyddio adnoddau lle y bo'u hangen, lleihau gwastraff, ailgylchu deunyddiau, cynyddu gwerth lleol creu a chanolbwyntio ar gostau oes gyfan - Sicrhau ein bod yn chwarae rhan weithredol mewn consortia comisiynu a arweinir yn genedlaethol	Aelod Cabinet dros Adnoddau

C. Mwyafu potensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig

Beth rydym yn ei wneud	Sut rydym yn ei wneud	Pwy sy'n atebol?
11) MAE'R CYNGOR YN DATBLYGU AC YN DARPARU CYNLLUN CYNALIADWY AR GYFER GWELLA'R AMGYLCHEDD LLEOL	- Gweithio gyda grwpiau cymunedol i leihau sbwriel a thipio anghyfreithlon tra'n defnyddio technoleg i wella ein prosesau ein hunain. - Sicrhau ein bod yn lleihau'r faint o wastraff, gan gyflawni targedau ailgylchu a pheidio â mynd y tu hwnt i'r terfynau cenedlaethol ar gyfer y maint y gallwn ei anfon i safleoedd tirlenwi - Gweithio tuag at fod yn Sir ddi-blastig, gan leihau i'r eithaf defnydd plastig untro a phlastig diangen. - Darparu polisi seilwaith gwyrdd i sicrhau bod mannau gwyrdd ar gael i bobl - Sicrhau a darparu arian ar gyfer prosiectau gan gynnwys Lefelau Byw, Amaeth-Drefol ac Ansawdd Aer - Gosod offer monitro ansawdd aer amser real mewn pedair ysgol - Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol a gwell cysylltedd (<i>Newydd</i>) - Cynnal yr amrywiaeth o blanhigion a bywyd gwyllt yn y Sir gan gymryd mesurau i'w gwneud yn fwy gwydn i fygythiadau allanol fel llifogydd a thymheredd uwch. (<i>Newydd</i>)	Aelod Cabinet dros Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth Aelod Cabinet dros Fenter a Chynllunio Defnydd Tir Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Datblygu Cymunedol Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a MonLife
12) MAE'R CYNGOR YN DATBLYGU AC YN GWEITHREDU CYNLLUNIAU CLIR I LEIHOU EI ALLYRIADAU CARBON NET I SERO ERBYN 2030 A GWEITHIO GYDA GRWPIAU CYMUNEDOL I LEIHOU ALLYRIADAU AR DRAWS Y SIR GYFAN	- Datblygu a galluogi mwy o gynlluniau ynni adnewyddadwy lleol - Datblygu rhaglen buddsoddiad i helpu ein gwasanaethau i newid i ddyfodol carbon isel - Treialu a phrofi cerbydau hydrogen drwy bartneriaethau â sefydliadau megis River Simple - Gosod pwyntiau gwefru batri ar gyfer cerbydau trydan ym mhob tref gan ddefnyddio cyfleoedd ariannu fel grantiau o'r Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel	Aelod Cabinet dros Adnoddau Aelod Cabinet dros Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth

13) MAE'R CYNGOR YN CADW HEOLYDD AC ARDALOEDD YN DDIOGEL	• Gweithio gyda chynghorau tref a chymunedol a phobl leol i nodi lle mae angen mesurau lleihau cyflymder gan gynnwys parthau 20 mya lle y bo'n briodol • Cymorth ar gyfer Gwyllo Cyflymder Cymunedol a mentrau diogelwch cyflymder a arweinir gan y gymuned	Aelod Cabinet dros Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth
14) MAE'R CYNGOR YN CYFOETHOGI TREFTADAETH LEOL DRWY BERCHNOGAETH GYMUNEDOL A DATBLYGU GWASANAETHAU CELFYDDYDOL A DIWYLLIANNOL.	• Cefnogi cynnig Amgueddfa traws-sirol cydnerth a chynaliadwy tra'n nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad celfyddydol a diwylliannol (<i>Newydd</i>) • Mynd ar drywydd cyfleoedd i wella'r cyfleusterau yn Theatr y Bwrdeistref (<i>Newydd</i>) • Diogelu a gwella ein treftadaeth adeiledig gan gynnwys cyflwyno cynigion i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, lle y bo'n briodol	Aelod Cabinet dros Fenter a Chynllunio Defnydd Tir Aelod Cabinet dros Lywodraethu a'r Gyfraith

Ch. Llesiant Gydol Oes

Beth rydym yn ei wneud	Sut rydym yn ei wneud	Pwy sy'n atebol?
15) MAE'R CYNGOR YN GALLUOGI CYMUNEDAU CYSYLLTIEDIG A GOFALGAR GAN GEFNOGI POBL I FYW'N ANNIBYNNOL	- Manteisio i'r eithaf cyfleoedd i'r holl bobl fyw'r bywydau maent eisiau eu byw a'r canlyniadau cadarnhaol maent yn nodi - Cyd-gynhyrchu ein hymagweddau at lesiant, gofal a chymorth - Cwblhau'r symud o ddull tasg ac amser mewn gofal cymdeithasol i ofal seiliedig ar berthynas yn y cartref - Datblygu cyfleoedd i bobl fod yn rhan o'u cymunedau lleol gan leihau unigedd ac unigrwydd - Gwella cyfleoedd i bobl â gofal a chymorth i gyfrannu'n weithredol drwy gyflogaeth a gwirfoddoli	Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd
16) MAE'R CYNGOR YN GWEITHIO AR Y CYD I GYFLAWNI CYFIAWNDER CYMDEITHASOL, GAN ALLUOGI FFYNIANT A LLEIHAU ANGHYDRADDOLDEB RHWNG CYMUNEDAU AC O FEWN CYMUNEDAU	- Parhau i ddatblygu rhaglenni i drechu tlodi gan fynd i'r afael â diweithdra a thlodi mewn gwaith drwy gynlluniau megis y rhaglen Sgiliau yn y Gwaith. - Sicrhau bod holl bolisiau'r Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau tegwch mynediad - Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a sicrhau bod cyfleoedd ar gael yn wirioneddol i bob - Cefnogi a galluogi datblygu cynlluniau a arweinir gan y gymuned a gweithio ar sail safle i wella llesiant a chynyddu ffyniant.	Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Datblygu Cymunedol Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd
17) MAE'R CYNGOR YN GALLUOGI GWELL GWASANAETHAU LLEOL DRWY GEFNOGI GWIRFODDOLWYR A GWEITHREDU CYMDEITHASOL	- Sicrhau cyfranogiad cymunedol ystyrion i ddeall yr asedau a'r blaenoriaethau ym mhob ardal - Cymeradwyo'r polisi gwirfoddoli, datblygu cyfleoedd gwirfoddoli a pharhau i gefnogi'r Rhaglen Arweinyddiaeth Gymunedol gan gynyddu sgiliau a gwybodaeth gwirfoddolwyr cymunedol - Ail-lansio llwyfan Gwneud Sir Fynwy'n Agored i hyrwyddo	Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Datblygu Cymunedol

	cyfleoedd i ymgysylltu â chymunedau a gwella llesiant	
18) MAE'R CYNGOR YN HYBU HAMDDEN, ADLONIAINT A LLESIANT	• Darparu pwll a chyfleusterau hamdden newydd yn Nhrefynwy (<i>Wedi'i Gwblhau</i>) • Cwblhau achos busnes ar drosglwyddo gwasanaethau i fodel darparu amgen (<i>Wedi'i Gwblhau</i>) • Ailwampio'r cyfleusterau hamdden yng Nghil-y-coed (<i>Newydd</i>) • Datblygu achos busnes ar gyfer gwella cyfleusterau hamdden yn y Fenni a Chas-gwent (<i>Newydd</i>) • Defnyddio arian Adran 106 yn strategol i ddatblygu prosiectau lleol sy'n sicrhau'r llesiant mwyaf • Gwella llesiant a chefnogi ffyrdd iach o fyw drwy fentrau fel y Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Ymarfer Corff • Datblygu model darparu mwy cynaliadwy ar gyfer y Gwasanaeth Addysg Awyr Agored.	Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a MonLife

E. Cyngor blaengar sy'n Canolbwyntio ar y Dyfodol

Beth rydym yn ei wneud	Sut rydym yn ei wneud	Pwy sy'n atebol?
19) MAE'R CYNGOR YN GALLUOGI AC YN DARPARU GWASANAETHAU LLEOL CYNALIADWY DA TRA'N DARPARU PROFIAD CWSMER RHAGOROL AR DRAWS POB SIANEL	- Datblygu model busnes newydd ar gyfer Hybiau Cymunedol a Gofal Cwsmer er mwyn cynyddu mynediad a darparu dewis ehangach o sianeli i gwsmeriaid ymgysylltu â ni (ar-lein, drwy'r ap Fy Sir Fynwy, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb) - Cynyddu'r cyhoeddiad a'r defnydd o ddata agored er mwyn cynyddu atebolrwydd a galluogi eraill i ddatblygu apps sydd â budd dinesig - Cyflwyno Safon Gwasanaeth Digidol	Arweinydd y Cyngor Prif Weithredwr Aelod Cabinet dros Lywodraethu a'r Gyfraith
20) MAE'R CYNGOR YN AGOR I FYN CYFRANOGIAD DEMOCRATAIDD A GWNEUD PENDERFYNIADAU	- Ail-lunio ein trefniadau llywodraethu gan gynnwys arfarniadau o ddewisiadau mwy manwl - Nodi ffyrdd o gael mwy o bobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol a chraffu er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau lleol - Datblygu mynediad o bell a phresenoldeb mewn cyfarfodydd i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf - Adolygu'r holl strategaethau a chynlluniau galluogi - Pobl, Digidol a Chwsmeriaid, Asedau a'r Economi a Menter (<i>Wedi'i Gwblhau</i>) - Adolygu a chydgrynhai gweithgorau a threfniadau - Adolygu cynlluniau perfformiad a gwelliant a'u disodli â data dangosfyrddau 'amser real'	Aelod Cabinet dros Lywodraethu a'r Gyfraith
21) MAE'R CYNGOR YN DARPARU SEFYDLIAD CYNALIADWY A GWYDN A GWASANAETHAU CYHOEDDUS PERTHNASOL, HYFYW A GWERTHFAWR	- Archwilio ac ymgorffori ffyrdd newydd o weithio – Deallusrwydd Artiffisial, Awtomeiddio a thechnoleg gydweithredol - Datblygu strategaeth a dull gweithredu masnachol - Sefydlu a chyflwyno cynllun ariannol tymor canolig cynaliadwy a dichonadwy i gwrdd â'r heriau ariannol	Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet gyfan

	sylweddol a wynebîr gan y Cyngor.	
22) MAE'R CYNGOR YN GOSOD POBL YNG NGHALON POPETH A WNA AC MAE'N YSBRYDOLI RHAGORIAETH YN Y GWEITHLE AC YN Y GWEITHWYR	• Cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau ac atebolrwydd drwy ddiwygio'r cyfansoddiad • Blaenoriaethu Iechyd, Diogelwch a Llesiant y Gweithle • Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys ffocws ar ffactorau cymdeithasol-economaidd • Ymgysylltu â chyflogeion drwy hyfforddiant a dysgu datblygiad personol	Aelod Cabinet dros Adnoddau Aelod Cabinet dros Lywodraethu a'r Gyfraith

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud arbedion o £23.2 miliwn o'i gyllidebau gwasanaeth. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau dros y cyfnod. Ar yr un pryd, mae'r pwysau ar y gyllideb wedi bod yn cynyddu o ran twf demograffig, galw a disgwyliadau. Ein cymhelliad yw helpu i wella bywydau a chreu cymunedau cynaliadwy a gwydn. Y cwestiwn sydd wrth wraidd y cynllun hwn, felly, yw nid 'beth allwn ni ei fforddio?' ond 'beth sy'n bwysig?'

Mae Sir Fynwy yn parhau i fod ar waelod y tabl o ran cyllid fesul pen o'r boblogaeth ac nid yw cyllid Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â'r pwysau ariannol sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Rydym bob amser wedi ceisio cadw darpariaeth gwasanaethau lleol yn wyneb pwysau cyllidebol drwy newid, gwella ac addasu ein gwasanaethau. Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw llawer o'r pethau rydym yn gwneud i'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau; mae gwrandio ar ein trigolion yn bwysicach nag erioed ac rydym wedi gweithio i gynnal y pethau sy'n bwysig. Ar ôl sawl blwyddyn o gyflawni arbedion sylweddol o'r gyllideb, bydd y ffordd o sicrhau gostyngiadau pellach yn dod yn fwyfwy heriol.

Rydym yn cynllunio ein cyllideb fel rhan o'n Cynllun Ariannol Tymor Canolig; mae hyn yn nodi'r sefyllfa ariannol yn y byrdymor a'r tymor canolig ac yn modelu senarios a phwysau ariannol gwahanol. Rydym yn parhau i weithio'n galed i gynllunio ar gyfer mwy na dim ond cyllideb un flwyddyn. Mae ein cynlluniau ariannol yn helpu i adeiladu pont rhwng nodi gostyngiadau cost posibl er mwyn sicrhau y gall y sefydliad fantoli ei gyllideb yn y tymor byr, heb gymryd camau a fydd yn amharu ar ein gallu i gyfrannu at y cynllunio tymor hwy.

Mae ein proses o bennu'r gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cynnwys cyfuniad o newidiadau i wasanaethau/gostyngiadau cost, cynhyrchu incwm parhaus a ffocws ar gefnogi meysydd blaenoriaeth ar gyfer y Cyngor megis addysg a gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Corfforaethol. Rydym yn parhau i ddatblygu ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'n cefnogi cyn belled ag y bo modd i barhau i gyflawni'r nodau a'r dyheadau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol hwn. Mae'r gwaith hwn i ddiwygio'r Cynllun Corfforaethol yn y tymor canol wedi ystyried sut y gellir cyflawni ein hymrwymadau gyda'r adnoddau sydd ar gael gennym a fydd yn parhau i fod yn broses ailadroddol a pharhaus fel rhan o'n gwaith cynllunio ariannol.

Sut byddwn yn Gwerthuso Cynnydd

Mae'r Cynllun hwn yn gosod cyfeiriad clir a phrif bethau y byddwn yn gweithio arnynt ar gyfer y cyfnod hyd at 2022 pan gynhelir etholiadau nesaf y Cyngor. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gallu dangos cynnydd ac y gallwn gael ein dwyn i gyfrif yn erbyn y rhain. Mae rhai o'r pethau rydym wedi bwriadu eu gwneud yn hawdd eu gweld neu eu cyfrif, fel adeiladau ysgol newydd neu leihau faint o wastraff rydyn ni'n ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae eraill, megis lleihau anghydraddoldeb neu annog twf busnesau yn fwy anodd eu mesur. Mae'r adran hon yn nodi sut y byddwn yn gwerthuso ein cynnydd er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, sy'n rhan o'n trefniadau llywodraethu.

Byddwn yn cynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol ac yn cyflwyno hwn i'r Cyngor. Bydd pwyllgorau dethol yn craffu ar hyn yn ystod y flwyddyn ynghyd â mesurau perfformiad allweddol eraill, gan gydnabod efallai na ellir dangos yr effaith a gaiff yr amcanion yn glir dros amserlenni byr. Ar ddiwedd cyfnod y cynllun, bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gwblhau a bydd hwn yn cael ei adolygu cyn etholiadau lleol 2022.


Mae rhan flaen y cynllun yn dangos rhai o'r mesurau y byddwn yn eu defnyddio i asesu ein cynnydd. Mae'r rhain yn gymysgedd o fesurau proses, allbwn a chanlyniad. Yn fyr: A wnaethon ni hynny? Pa mor dda wnaethon ni hynny? A yw pobl yn well eu byd o ganlyniad i hynny? Pan fyddwn yn ymdrin â materion cymhleth, nid yw bob amser yn hawdd mesur cynnydd bob chwarter neu bob blwyddyn mewn un rhif. Yn y cynllun hwn, rydym wedi amlygu rhai o'r metrigau a'r cerrig milltir mwy hygyrch ond y tu ôl i bob un o'r prif raglenni gweithgarwch mae gennym gynllun prosiect neu gynllun busnes gwasanaeth ar wahân. Fel rhan o'r gwaith diweddarau canol tymor rydym wedi diweddarau rhai mesurau perfformiad er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y mesurau diweddaraf a mwyaf perthnasol i asesu cynnydd yn erbyn y nodau.

Byddwn yn olrhain cynnydd yn erbyn y metrigau allweddol hyn sy'n galluogi'r awdurdod i gael ei ddal i gyfrif. Mae gan bob un o'n timau gynlluniau busnes gwasanaeth sy'n disgrifio'r camau gweithredu penodol y bydd cydweithwyr yn gweithio arnynt i gyflawni'r nodau, sy'n cael eu diweddarau bob chwarter. Mae llawer o'r rhaglenni a restrir yn y cynllun hwn yn uchelgeisiol a bydd rhai yng nghyfnodau cynnar eu datblygiad. Dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol efallai y bydd rhai newidiadau pellach i fesurau, yn enwedig pan dynnir y rhain o ffynonellau cenedlaethol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn ceisio cynnwys mesurau amgen sy'n cyd-fynd â'n diben.

Atodiadau

Rheoli Perfformiad a Fframwaith Polisi

Mae'r adran hon yn rhoi darlun o'n fframwaith rheoli perfformiad; yn dangos y cyd-ddibyniaethau a sut y dylai'r polisiâu, y cynlluniau a'r rhaglenni sydd ynddo fod yn atgyfnerthu ei gilydd. Yn syml, mae ein fframwaith rheoli perfformiad yn rhan annatod o fabwysiadu a chymhwyso ein Cynllun Busnes Corfforaethol gan ei fod yn gwneud yn siŵr bod pawb yn tynnu i'r un cyfeiriad i gyflawni canlyniadau gwirioneddol a phendant.



Adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn yw diben sy'n uno'r amrywiaeth eang o wasanaethau yr ydym yn gyfrifol amdanynt. Rydym yn bartner yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n gyfrifol am bennu amcanion llesiant ar gyfer y sir. Mae amcanion llesiant y Cyngor yn cael eu pennu gan y Cyngor yn seiliedig ar yr un asesiad llesiant ag amcanion y BGC ac fel mae'r cynllun hwn yn dangos, yn ffurfio asgwrn cefn ein Pum Nod Sefydliadol. Mae gan bob un o'n timoedd gynllun busnes sy'n alinio i'r amcanion hyn. Mae gennym ystod o fesurau perfformiad a ddefnyddiwn i gadw golwg ar ein cynnydd. Mae ein polisi rheoli risg yn ein galluogi i reoli risgiau strategol i'n darpariaeth. Mae nodau ac amcanion ein cyflogeion yn dangos sut mae cyfraniadau cydweithwyr unigol yn cyfrannu at yr amcanion hyn a chyflawni ein gweledigaeth yn unol â'n gwerthoedd. Mae ein 'strategaethau galluogi' yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion. Caiff ein gwaith ei lywio a'i arwain gan bolisi cenedlaethol a rheoleiddio ac arolygu allanol.

Fframwaith Polisi

Mae ein Fframwaith Gwella yn cael ei gefnogi gan ystod o gynlluniau fel rhan o'n fframwaith polisi "sy'n llywio ein camau gweithredu i wella gwasanaethau. Y sefydliadau yw:

Lefel	Fframwaith Polisi	
Gweledigaeth	Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy wedi cynhyrchu cynllun llesiant lleol, sy'n gosod pedwar amcan y byddant yn gweithio arnynt i wella llesiant yn y Sir yn awr ac yn y dyfodol.	
Cynllun	Cynllun Corfforaethol gan gynnwys amcanion llesiant y Cyngor Yn gosod cyfeiriad y Cyngor hyd at 2022, yr adnoddau sydd eu hangen i'w gyflawni ac yn ymgorffori amcanion llesiant y Cyngor ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy a gwneud y mwyaf o'r cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant.	
Strategaeth	Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau Yn disgrifio sut rydym yn rheoli ein portffolio tir ac eiddo	Cynllun Ariannol Yn nodi'r heriau ariannol rydym yn eu hwynebu a sut y byddwn yn cwrdd â'r heriau hyn
	Strategaeth Pobl Mae'r strategaeth yn cysylltu pobl â phwmpas er mwyn gwella perfformiad a sicrhau gwell canlyniadau	Strategaeth Ddigidol Y camau y byddwn yn eu cymryd i ddatblygu ein cynnig digidol yn ein gwasanaethau a'n cymunedau
	Cynllun Datblygu Lleol Ein cynigion a'n polisiau ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y dyfodol	
Cyflawni	Cynlluniau busnes y gwasanaethau Mae gan bob gwasanaeth gynllun sy'n gwerthuso perfformiad, yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn cynnwys metrigau i fonitro perfformiad a rheoli risgiau.	Nodau ac Amcanion Cyflogeion Mae arfarniadau gweithwyr yn galluogi unigolion a thimau i amlinellu'r gwerthoedd a'r perfformiad sy'n berthnasol yn eu rôl ac yn eu cysylltu â phwmpas y sefydliad.
Gwerthuso a Risgiau	Gwerthuso Mae'n gwerthuso perfformiad, cynlluniau a metrigau i fonitro perfformiad	Asesiad Risg Strategol Mae'n nodi, rheoli a monitro risgiau strategol y Cyngor

Llywodraethu Da – Risgiau Strategol

Mae llywodraethu corfforaethol yn pennu, yn cydgysylltu ac yn alinio'r prosesau a'r fframweithiau sefydliadol y bydd angen iddynt ddod ynghyd i gyflawni'r cynllun hwn ar lefel y Cyngor gyfan. Bydd risgiau ynghlwm wrth hyn a bydd llywodraethu da yn sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu deall, eu rheoli a'u cyfathrebu. Mae gan y Cyngor bolisi rheoli risg sefydledig sy'n nodi polisi ac ymagwedd y Cyngor tuag at reoli risg strategol. Mae'r risgiau yn rhai 'lefel uchel' ond nid yn gymaint ag i gyfyngu'u defnyddioldeb a'u cymhwysiad ymarferol.

Mae asesiad risg strategol y Cyngor yn sicrhau:

- Bod risgiau strategol yn cael eu nodi a'u monitro gan yr awdurdod.
- Bod rheolaethau risg yn briodol ac yn gymesur
- Bod uwch reolwyr ac aelodau etholedig yn adolygu'n systematig y risgiau strategol sy'n wynebu'r Cyngor.

Nod a bwriad y Cyngor yw rhagweld a rheoli risgiau yn rhagweithiol yn hytrach nag ymdrin â chanlyniadau digwyddiadau gwirioneddol. Mae'r asesiad risg strategol fel arfer yn nodi risgiau allweddol, a allai beryglu gallu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a'i ofynion statudol yn sylweddol. Bydd y risgiau strategol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion yn y Cynllun Busnes Corfforaethol yn cael eu nodi yn yr asesiad risg strategol sy'n rhoi asesiad llawn o'r risg a'r camau lliniaru.

Arloesi a Risg - goddefiant risg ac archwaeth risg

Bydd yna adegau - gan gynnwys cymhwyso'r cynllun hwn - pryd y gallai'r Cyngor elwa o gyflwyno cyfleoedd newydd neu fabwysiadu dulliau arloesol. Gall y rhain o anghenraid arwain at radd o risg a ystyrir yn rhan gynhenid o'r dull gweithredu er mwyn gallu sicrhau ennillion neu fudd. Lle mae amgylchiadau'n golygu amlygiad i risgiau o'r fath, mae'n rhaid eu hasesu yn unol â lefelau 'goddefiant risg' y Cyngor. Rhaid i gynigion prosiect a chynlluniau busnes unigol gynnwys asesiad o'r risgiau tebygol ac ystyried y lefelau goddefiant risg. Mae'n rhaid i unrhyw arloesedd neu gyfle sy'n cyflwyno risg canolig neu uchel gael eu harchwilio'n ofalus; mae'n rhaid i'r risgiau gael eu nodi, eu dadansoddi a'u dogfennu'n glir ac fel mae'n briodol ymgynghori arnynt. Y lefelau goddefiant risg yw:

Risgiau derbyniol

Yn gyffredinol, mae'r risgiau hyn yn cael eu hasesu, a allai arwain at ddod i gysylltiad â'r canlynol:

- effaith andwyol ar enw da a/neu berfformiad y Cyngor
- cerydd neu ddirwy gan gyrff rheoleiddio/statudol
- colled ariannol neu effaith ar asedau

Risgiau annerbyniol

Yn gyffredinol, mae'r risgiau hyn yn cael eu hasesu, a allai arwain at ddod i gysylltiad â'r canlynol:

- niwed corfforol neu arall i unrhyw berson
- peidio â chydymffurfio'n fwriadol â deddfwriaeth a rheoliadau
- peidio â chydymffurfio'n fwriadol â pholisïau, rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor, ac ati.
- colled ariannol sylweddol neu ddifrod i/colli asedau


Archwaeth risg

O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o risg yn cael ei derbyn er mwyn gallu sicrhau budd neu gymryd cyfle. Ni ddiffiniwyd paramedr caeth ar archwaeth risg y sefydliad, gan y bydd hyn yn amrywio rhwng risgiau, adrannau a swyddogaethau. Mae'n bwysig felly bod prosiectau, cynigion a chynlluniau unigol yn asesu risgiau ac yn ystyried archwaeth risg tra'n gwneud hynny. Bydd asesu yn erbyn lefelau 'goddefiant risg' y Cyngor, a nodir yn y polisi a'r canllawiau rheoli risg, yn helpu i lywio hyn.

Dim ond un rhan o drefniadau rheoli risg y Cyngor yw'r asesiad risg strategol. Fel arfer, mae'r asesiad risg yn cwmpasu risgiau lefel uchel a chanolig. Ni chynhwysir risgiau gweithredol a strategol lefel is oni bai yr amcanestynir y byddant yn cynyddu o fewn y tair blynedd a gwmpesir. Caiff y risgiau hyn eu rheoli drwy amrywiaeth o brosesau, er enghraifft drwy gynlluniau gwasanaeth timau, drwy gynlluniau rheoli argyfwng a pharhad busnes, gweithdrefnau iechyd a diogelwch, trefniadau yswiriant ac ati. Mae'r fframwaith isod yn amlygu rhai o'r prif brosesau ar gyfer nodi a rheoli risgiau




Strwythur Trefniadol



Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gyflawni datblygu cynaliadwy, dylai hyn sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu cenedlaethau'r dyfodol o ran diwallu eu hanghenion eu hunain. Wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i ni gyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i sicrhau ein bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion. Mae'r saith nod llesiant i'w gweld yn y diagram isod tra bod ein hamcanion llesiant yn cael eu hymgorffori o fewn y nodau a osodwyd yn y cynllun hwn.



Mae'r cyfraniad y mae ein hamcanion lleol yn ei wneud tuag at y saith amcan cenedlaethol wedi'i asesu ac fe'i dangosir yn y tabl isod.

Wrth gynllunio ein gwasanaethau a chymryd camau i gyflawni ein hamcanion llesiant rhaid i ni ystyried, ond hefyd ddangos ein bod wedi cymhwyso, yr egwyddorion llywodraethu cynaliadwy canlynol wrth wneud penderfyniadau:

- Cydbwyso anghenion tymor byr ag anghenion tymor hir.
- Gan ddefnyddio dull integredig, gan gydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Cynnwys eraill ac ystyried eu safbwyntiau.
- Cydweithio ag eraill.
- Darparu adnoddau er mwyn atal problemau

Mae'r holl benderfyniadau presennol a wneir gan y Cyngor a'i Gabinet yn cael eu hasesu gan ddefnyddio Gwerthusiad Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n sicrhau bod cydraddoldeb a datblygiad cynaliadwy yn cael eu

hystyried yn llawn yn y penderfyniadau a wnawn. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodedig i weithredu ar y cyd trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal trwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

Amcanion Llesiant	Cyfraniad Amcanion Llesiant at y Nodau Llesiant						
	Cymru Lewyrchus	Cymru Wydn	Cymru Iachach	Cymru sy'n fwy Cyfartal	Cymru o Gymunedau Cydlynus	Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang
Y dechrau gorau posibl mewn bywyd	✓		✓	✓		✓	
Sir ffyniannus a chysylltiedig	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Mwyafu potensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig	✓	✓	✓		✓	✓	✓
Llesiant Gydol Oes	✓	✓	✓	✓	✓		
Cyngor sy'n canolbwyntio ar y dyfodol	✓	✓			✓		✓

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru)

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Gwella blynyddol a llunio cynllun gwella. Er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'r broses o osod amcanion llesiant fod wrth wraidd fframwaith gwella'r Cyngor ac felly mae wedi penderfynu cyfuno'r ddau ofyniad i ddarparu set o amcanion clir o'r Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn cyflawni cyfrifoldeb y Cyngor i gyhoeddi ei Amcanion Gwella yn unol â'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod fel yr amlinellir yn Adran 15(7) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac mae'n dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni'r saith agwedd gwella.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gan y cyngor ymrwymiad hirsefydlog i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n rhaid iddo gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl â nodweddion gwarchodedig: hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ail-bennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac oedran. Mae hyn yn cyd-fynd yn glir â'r nodau llesiant a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, ond yn anad dim mae'n bwysig i ni gan mai dyma'r peth iawn i'w wneud.

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod y Gymraeg yn ganolog i'r nodau a gyflwynwyd fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau ein bod yn gallu gwneud y mwyaf o'n cyfraniad i Gymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus a hefyd i helpu Llywodraeth Cymru gyrraedd y targed o gael miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau cysylltiedig yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau i hyrwyddo'r Gymraeg a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r 175 Safon a ddyrannwyd iddo. Mae hon yn her sylweddol sydd wedi'i phennu ond mae systemau wedi'u sefydlu mewn isadrannau i sicrhau cydymffurfiaeth. Un o'r Safonau a osodwyd oedd ysgrifennu Strategaeth y Gymraeg ar gyfer 2017 - 2022, sy'n nodi gweledigaeth o sut y bydd yr iaith yn edrych yn Sir Fynwy ymhen pum mlynedd a lle ceir targedau i helpu i wireddu'r weledigaeth honno. Yn 2012, cyflwynodd Llywodraeth Cymru strategaeth newydd a elwir "Mwy Na Geiriau". Yn y bôn, mae hyn yn gofyn i ni fel darparwr gofal ofyn i bobl a ydynt am gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg (a elwir yn "gynnig rhagweithiol").

Fformatau Amgen

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn Braille, print bras, ar dâp neu ar ffurf electronig. Os hoffech gael copi mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'n Swyddog Cydraddoldebau a'r Gymraeg drwy:

Rhif Ffôn: 01633 644010

e-bost: equality@monmouthshire.gov.uk

Os hoffech roi sylwadau ar amcanion y Cyngor, neu roi eich barn ar faterion y teimlwch y dylid eu hystyried fel rhan o ddull y Cyngor o ymdrin â lles, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Rydym wedi cynnwys ffurflen fer ar gyfer adborth ar ddiwedd y cynllun hwn. Mae croeso i chi ddefnyddio'r ffurflen hon a'i dychwelyd atom drwy'r post neu drwy'r e-bost. Fodd bynnag, rydym yn croesawu pob barn ym mha bynnag modd yr ydych yn dymuno eu darparu i ni.

 improvement@monmouthshire.gov.uk

 www.monmouthshire.gov.uk/cy/cynllun-gwella/

 Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethu, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Brynbuga, NP15 1GA

 01633 644397

 @MonmouthshireCC